

Moonsaig

Nodiadau i'r prosiect

Mae'r prosiect hwn wedi cael ei gynllunio are gyfer disgyblion o oedran 7-11 i greu mosaig o'r Lleuad drwy defnyddio arsylwadau a gymerwyd gyda'r Telesgop Lerpwl. Yn debyg i jig-so mawr, mae'r prosiect Moonsaig yn annog disgyblion i ymarfer cael ymwybyddiaeth o batrymau, ond yn fwy na hynny, rydym yn obeithiol bod o'n rhoi prosiect hwyl i'r dosbarth sy'n arwain at boster gwych i hysbysfwrdd yr ysgol.

Amcanion dysgu ychwanegol

1. I helpu dangos mae siâp y Lleuad yn sfferaidd.
2. I amlygu'r gweddau gwahanol ar gyfer wyneb y Lleuad, gyda delweddau manwl o ranbarthau ceudylllog a drwm sy'n ochr yn ochr â moroedd y Lleuad sy'n llawer mwy esmwyth.
3. Mae craterau cysgodi a mynyddoedd yn dangos bod y Lleuad yn cael ei oleuo gan yr Haul.
4. I ddarparu cyswllt ddysgu amdan gyfnodau'r Lleuad.
5. I ganiatáu cymhariaeth gyda maint y planedau yng Nghysawd yr Haul.

Cyfarwyddiadau

Adeiladon ni delweddau manwl o'r Lleuad drwy ddefnyddio mosaig o 60 i 100 delweddau o'r Telesgop Lerpwl. Rhannwyd y delweddau i mewn i adrannau mwy hydrin i greu Moonsaigau yr NSO. Maen nhw wedi cael eu dylunio fel gallen nhw gorgyffwrdd dipyn bach, mae hwn yn gwneud nhw'n haws i gyd-fynd gyda delwedd eraill ac wedyn glynu at ei gilydd.

Mae'r adrannau gwahanol o'r Moonsaigau ar gael fel ffeiliau ddelweddau JPEG sydd yn gallu cael eu lawr lwytho oddi ar wefan yr NSO, gyda phob JPEG yn rhan ar hap o'r darlun cyflawn terfynol. Gall y rhain wedyn cael eu hargraffu a glynu at eu gilydd i greu delwedd fawr o'r Lleuad sy'n gallu cael ei rhoi ar hysbysfwrdd yr ysgol. Mae'r adnoddau i gyd i'r prosiect ar gael drwy ddilyn y linc ganlynol –

<https://www.schoolsobservatory.org/discover/gweithgareddau/moonsaig>

Nodiadau Cynghori

- Peidiwch â newid graddfa'r delweddau i ffitio'r tudalen, dylwch chi fod yn argraffu segmentau sgwâr o'r Lleuad.
- Gwnewch yn siŵr rydych yn argraffu'r delweddau JPEG drwy ddefnyddio'r un dull pob amser; fel arall byddan nhw'n efallai ymddangos gyda raddfeydd gwahanol a fydd yn gwneud cydosod y Moonsaig yn amhosib.
- Oherwydd y clytiau tywyll ar y Moonsaig, efallai bydd eich argraffydd yn defnyddio llawer o inc. I leihau'r maint o'r inc fyddwch yn defnyddio, rydym yn argymhell argraffu allan ar A4, ond, bydd A3 yn cynhyrchu'r darlun cyflawn sydd yn fwy gan 70%.